
# Cyfarwyddiadau: Enghraifft Testun Ffurfiol

## Sut i Wneud Glôb

Ydych chi'n dysgu am gyfandiroedd y byd? Darllenwch ymlaen i ddarganfod sut i wneud glôb eich hun.

| **Byddwch angen:** |
|---|
| balŵn crwn |
| llawer o stribedi o bapur newydd tua 2cm o led |
| powlen o gymysgedd dŵr a blawd (cwpanaid o flawd a gwpanaid o ddŵr) |
| atlas |
| taflen cyfandiroedd y byd |
| ychydig o baent glas a brwsh paent |
| pecyn o binau ffelt |
| pâr o sisyrnau |
| ychydig o lud |



1. Yn gyntaf, chwythwch falŵn i fyny yn ysgafn. Peidiwch â'i fyrstio.
2. Gofynnwch am gymorth oedolyn i'ch helpu i glymu eich balŵn os yw hynny'n anodd.
3. Trochwch y stribedi papur newydd yn y balŵn gyda stripedi i'w orchuddio.
4. Gorchuddiwch y balŵn o leiaf tair neu bedair gwaith.
5. Gadewch y balŵn i sychu yn solid. Rhowch mewn lle cynnes, sych.
6. Nesaf, peintiwch y balŵn cyfan yn las i ddangos y môr.
7. Gadewch i sychu.
8. Lliwiwch y saith cyfandir yn daclus ar y daflen waith.
9. Torrwch y cyfandiroedd ond byddwch yn ofalus gyda'r sisyrnau.
10. Gludwch y cyfandiroedd yn eu lle cywir ar y glôb. Defnyddiwch atlas i'ch helpu os ydych yn ansicr.
11. Labelwch y cefnforoedd ac yn ofalus tynnwch linell y cyhydedd. Yn olaf, labelwch gyfandiroedd Gogledd America, De America, Affrica, Antarctica, Awstralasia, Ewrop ac Asia.